SKANSC8

Darparu triniaeth dermaplaneg er mwyn digroeni ac annog adnewyddiad o’r croen

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, SKANSC1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol yn ystod gweithdrefnau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol. a SKANSC2: Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gweithdrefnau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol o fewn yr amgylchedd waith. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr esthetig sy'n darparu triniaeth dermaplaneg ddiogel ac effeithiol i ddigennu ac annog adnewyddiad o'r croen neu fel paratoad ar gyfer triniaethau pellach. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Rhaid i'r ymarferydd esthetig gael cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu ei gyffelyb a gallu cyflawni'r swyddogaethau o fewn SFHCHS36: Cefnogaeth bywyd sylfaenol a gallu cael gafael ar gyfarpar cefnogi bywyd fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun rheoli cymhlethdodau. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr wyneb yn wyneb gyda’r unigolyn a chadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth dermaplaneg

2. trafod er mwyn sefydlu **amcanion yr unigolyn**, ynghŷd â’i bryderon, disgwyliadau a chanlyniadau disgwyliedig yr unigolyn er mwyn hysbysu’r cynllun triniaeth dermaplaneg i gynnwys:

2.1 dewisiadau triniaeth amgen
2.2 **dosbarthiad y croen**, ei **nodweddion** a’i gyflwr
2.3 rhaglen baratoadol ar gyfer preimio’r croen
3. ailadrodd, cadarnhau a chytuno gyda’r unigolyn, ei fod wedi deall y driniaeth dermaplaneg arfaethedig i gynnwys:
3.1 **gwrth weithredoedd**
3.2 adweithiau niweidiol
4. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y driniaeth dermaplaneg, gan ganiatau amserlen ddigonol i’r unigolyn wneud dewis gwybodus
5. dewis cynnyrch paratoi glendid effeithiol i gwrdd ag anghenion yr unigolyn yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
6. paratoi man triniaeth yr unigolyn yn unol â’r protocol triniaeth, dermaplaneg
7. paratoi a defnyddio **cyfarpar** yn ôl cyfarwyddidau’r gwneuthurwr ac yn unol â’r protocol triniaeth dermaplaneg
8. dilyn y protocol triniaeth dermaplaneg er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwared o sylwedd arwynebol mewn modd gwastad i gynnwys:
8.1 cefnogi’r croen â llaw
8.2 addasu technegau ar gyfer **man triniaeth** yr unigolyn
9. monitro iechyd, lles ac adwaith y croen drwy gydol y driniaeth dermaplaneg
10. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
11. cwblhau’r driniaeth yn unol â’r protocol triniaeth dermaplaneg gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
12. cymryd a chadw delweddau gweledol cydsyniol o fan triniaeth yr unigolyn, yn unol â gofynion yswiriant, polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
13. cwblhau cofnodion triniaeth gosmetig yr unigolyn nad yw’n llawfeddygol a’u cadw’n unol â deddfwriaeth data
14. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso’r driniaeth dermplaneg a gweithredu’n briodol
15. rhoi a chael cadarnhad o dderbyn y cyfarwyddiadau ar lafar ac ysgrifenedig a’r cyngor a roddir i’r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth
16. cofnodi canlyniad y driniaeth dermaplaneg a’r gwerthusiad ohoni er mwyn cytuno ar a hysbysu triniaethau’r dyfodol
17. trafod a chytuno gyda’r unigolyn ar driniaethau ar gyfer y dyfodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. pwysigrwydd cydweithredu gyda phobl broffesiynol gymwys er mwyn cefnogi arferion gwaith diogel
2. eich swyddogaeth a’ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu
3. pam fod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol
4. pwysigrwydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, y polisïau gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am arfer orau diweddaraf
5. yr **anatomeg a’r ffisioleg** sy’n berthnasol i’r safon yma
6. y broses heneiddio gronolegol o’r croen a’r berthynas gyda ffactorau cynhenid ac anghynenid
7. y raddfa pH a’i pherthnasedd i sensitifrwydd y croen
8. sut a pham mae swyddogaeth rhwystro’r croen yn cael ei lesteirio gan driniaeth dermaplaneg i gynnwys:
8.1 y risg cynyddol o oleusensitifrwydd a ffyrdd o warchod y croen
9. yr **adweithiau niweidiol** sy’n gysylltiedig gyda’r driniaeth dermaplaneg a sut i ymateb iddynt
10. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth dermaplaneg
11. pam ei bod yn bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon, disgwyliadau yr unigolyn a’r canlyniadau y mae’n ei ddymuno a chytuno ar y cynllun triniaeth gosmetig nad yw’n llawfeddygol
12. y mathau o raglenni preimio’r croen a’u perthnasedd i lwyddiant y driniaeth dermaplaneg
13. pwysigrwydd defnyddio **cymhorthion gweledol** i hysbysu’r unigolyn o’r effeithiau corfforol
14. y strwythurau talu a’r dewisiadau ar gyfer triniaeth
15. y triniaethau ellir eu cyflawni ar y cyd â’r driniaeth dermaplaneg neu ar ei hôl a’r risgiau cysylltiedig
16. y gofynion deddfwriaethol a digolleiad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi’i lofnodi ar gyfer y driniaeth dermaplaneg
17. pwysigrwydd cadw at y **protocol triniaeth dermaplaneg**
18. sut i gadw, trin, defnyddio a chael gwared o gyfarpar dermaplaneg a llafnau diheintiedig a ddefnyddir unwaith yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr a gofynion deddfwriaethol
19. pam ei bod yn bwysig nodi’r risgiau cysylltiedig i driniaeth dermaplaneg a sut i’w rheoli, i gynnwys:
19.1 defnyddio gwe ddiheintiedig
19.2 defnyddio toddiant diheintiedig
19.3 anafiadau posibl
19.4 mannau triniaeth sy’n addas ar gyfer y driniaeth dermaplaneg
19.5 dosbarthiad o’r croen
19.6 gallu’r croen i iachau
20. y mathau o gynnyrch wedi trinaieth, ynghŷd â’u manteision a’r defnydd ohonynt
21. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
22. sut i baratoi’r cyfarpar yn unol â’r protocol triniaeth dermaplaneg i gynnwys:
22.1 sut i ddefnyddio'r llafn mewn modd aseptig
23. pam a sut i ogwyddo’r llafn a chefnogi’r croen â llaw er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol i’r

driniaeth
24. y rhesymau dros weithio’n systematig er mwyn mynd dros y cyfan o fan triniaeth yr unigolyn, yn unol â’r protocol triniaeth dermaplaneg
22. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn
ystod ac ar ôl y driniaeth
25. y gofynion deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol ar gyfer cymryd a chadw delweddau gweledol o fan triniaeth yr unigolyn
26. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion triniaeth dermaplaneg yr unigolyn
27. canlyniadau disgwyliedig y driniaeth dermaplaneg
28. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae’n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol
29. sut i goladu, dadansoddi, crynhoi a chofnodi adborth gwerthuso mewn modd clir a chryno
30. pwysigrwydd cofnodi canlyniad y driniaeth dermaplaneg a’r gwerthusiad ohoni
31. y **cyfarwyddiadau** a’r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth dermaplaneg

Cwmpas/Ystod

Gwybodaeth Ychwanegol

Disgwylir bod yr ymarferydd estheteg sy’n ymgeisio am y safon yma eisoes â’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ymddygiadau a nodir o fewn canllawiau triniaeth yr ymarferydd estheteg a’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cosmetig nad yw’n llawfeddygol.
Disgwylir i’r ymarferydd fod eisoes yn gallu dangos gallu mewn penderfynu’r gwrtharwyddion cymharol (cyfyngol) a llwyr (ataliol) ar gyfer y triniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol. Yn ogystal â hyn, dylai’r ymarferydd esthetig allu adnabod adweithiau neu ddigwyddiadau niweidiol a gweithredu ar fyrder i’w cywiro fel ag y cytunwyd o fewn cynllun rheoli cymhlethdodau.
Disgwylir i’r safon yma gael ei defnyddio ar y cyd â SKANSC1: Rhoi arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol ar waith a’u cynnal yn ystod triniaethau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol a SKANSC2: Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau cosmetig dewisol nad ydynt yn llawfeddygol.
Dylai tystiolaeth ar gyfer eitemau a restrir o fewn yr amrediad/rhychwant gael ei ddangos yn unol â’r math penodol o driniaeth gosmetig nad yw’n llawfeddygol sy’n cael ei chyflawni.

Amcanion yr unigolyn
*
1. digroeniad cynyddol
2. cael gwared o’r blew
3. adfywiad cynyddol o’r croen
4. gwrth heneiddio
5. paratoad cyn triniaethau plicio’r croen
6. paratoad cyn triniaethau photo adnewyddiad
7. amsugniad cynyddol o gynnyrch fferyllol a gofal o’r croen

Dosbarthiad o’r croen

1. Graddfa Fitzpatrick
2. Ffoto-ddifrod Glogau

Nodweddion o’r croen

1. olewog
2. sych
3. cyfuniad
4. sensitif
5. aeddfed
6. sych
7. afreoleiddrau lliwiad
8. dwysedd y croen

Gwrth weithredoedd

1. hyperemia

2. swyddogaeth rhwystro ar gyfer croen sydd mewn perygl

Cyfarpar

*
1. llafnau llawfeddygol diheintiedig
2. daliwr llafn
3. coes a llafn a ddefnyddir unwaith
4. tynnwr llafn

Man triniaeth
1. rhych yr wyneb a'r safn
2. corff

Anatomeg a ffisioleg

1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth ar ei gilydd

2. strwythur a swyddogaeth y croen ac atodiadau'r croen
3. afiechydon, anhwylderau a chyflyrau'r croen
4. proses heneiddio'r croen yn cynnwys effeithiau geneteg, ffordd o fyw ac amgylchedd
5. swyddogaeth rhwystro ar gyfer croen sydd mewn perygl a phrosesau adnewyddu'r croen
6. y broses o ddigroeni, diblisgiad ac arwynebu'r croen

Adweithiau niweidiol

*
*1. haint
2. anafiadau
3. chwydd gwyn
4. creithio gordyfol ac atroffig
5.mwy o adwaith goleusensitifedd

Cymhorthion gweledol

*
*1. Delweddau esboniadol
2. Diagramau esboniadol

Protocol triniaeth dermaplaneg

*
1. amgylchedd waith
2. iechyd a diogelwch
3. cynllun rheoli risg
4. atal a rheoli haint

5. rheoli cymhlethdodau
6. cynllun triniaeth
7. cydsyniad gwybodus
8. rheoli data
9. archwiliad ac atebolrwydd
10. cyfarwyddiadau a chyngor
11. rheoli gwastraff
12. ymarfer sy’n seiliedig a’r dystiolaeth ac sy’n adfyfyriol

Cyfarwyddiadau

*
1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a’r ymarferydd esthetig
2. rheoli cymhlethdodau
3. disgwyliadau wedi’r driniaeth ac amserlenni cysylltiedig
4. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
5. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
6. triniaethau yn y dyfodol
7. gweithdrefn cwynion neu brotocol pryderon

Geirfa

Rhagofalon cyffredinol a rhagofalon safonol

Mae rhagofalon cyffredinol yn berthnasol os yw'r ymarferydd yn dod i gysylltiad â gwaed a/neu rywfaint o hylif corfforol. Cyfrifoldeb yr ymarferydd yw rhoi mesurau atal a rheoli haint ar waith er mwyn atal dod i gysylltiad â phathogenau neu Ddeunyddiau Eraill all fod yn Heintus (OPIM).

Rhagofalon safonol yw'r lefel sylfaenol o reoli haint ddylai gael ei ddefnyddio bob amser o fewn yr amgylchedd waith, megis glendid dwylo, cyfarpar amddiffyn personol, atal anafiadau gan nodwyddau neu declynnau miniog, asesiad risg, glendid anadlol ac ymddygiad safonol ynghylch pesychu, glanhau amgylcheddol a chael gwared o wastraff.

-

Delweddau gweledol

Delweddau gweledol yw tystiolaeth sydd wedi'i chynhyrchu drwy ffotograffau neu fideo

Amgylchedd waith

Dylai gofynion am yr amgylchedd waith gydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a bod yn unol â'r canllawiau sydd wedi cael eu gosod allan naill ai gan eich awdurdod lleol neu gorff llywodraethu.

Dylid gwneud asesiadau risg, a dylai dulliau rheoli gael eu rhoi ar waith a'u cofnodi, a'u diweddaru yn rheolaidd a/os oes newidiadau yn digwydd. Dylai'r amgylchedd waith fod yn lanwaith ac yn addas i'w diben er mwyn i driniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol gael eu cwblhau mewn modd diogel ac effeithiol gan ddefnyddio technegau aseptic. Mae angen i weithdrefnau i atal a rheoli haint gadw'r risg o heintio a throsglwyddo meicrobau mor isel â phosibl. Rhaid i gyfarpar amddiffyn personol fod yn addas i'w ddiben ac ar gael. Rhaid i gyfarpar a chynnyrch gael eu cynnal a'u cadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion deddfwriaethol.

Mae'n ddoeth creu cynllun ar gyfer rheoli cymhlethdodau a/neu argyfwng ar gyfer pob triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol os bydd adwaith neu ddigwyddiad niweidiol.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKANSC1, SKANSC2, SKANSC3, SKANSC4, SKANSC5, SKANSC6, SKANSC7, SKANSC9

SKANSC8

Darparu triniaeth dermaplaneg er mwyn digroeni ac annog adnewyddiad o’r croen

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKANSC8
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch, Estheteg Harddwch, Ymarferydd Estheteg
Cyfres/Set	Therapi Harddwch, Triniaethau Cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol
Geiriau Allweddol	dermaplaneg, digroenio, digeniad, haenau arwynebol y croen, stratwm, rhaglen preinio’r croen, adnewyddiad o’r croen, adfywiad o’r croen, llafn lawfeddygol